**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE SOCIAL SERVICES SCRUTINY COMMITTEE**

**SUBJECT:** **SOCIAL SERVICES SCRUTINY COMMITTEE - DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2019 DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. THOMAS (CADEIRYDD)

Councillors K. Rowson (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. A. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
J. Holt
J. Millard
J. P. Morgan
T. Sharrem
T. Smith

WITH:

| |
|---|
| Damien McCann (Swyddog) |
| Tanya Evans (Swyddog) |
| Alyson Hoskins (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Moore a G. Paulsen. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau’r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>CYNNYDD AR WEITHREDU STRATEGAETH GOSTWNG YN DDIOGEL Y NIFER O BLANT SY'N DERBYN GOFAL 2017-2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i ddiweddaru Aelodau ar y cynnydd a wnaed yng nghyswllt gweithredu Strategaeth Gostwng yn Ddiogel y Nifer o Blant sy’n Derbyn Gofal 2017-2020.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am warcheidwaid arbennig, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fel arfer mai aelodau teulu estynedig megis mam-guod a thad-cuod, modrabedd ac ewythrod oedd gwarcheidwaid arbennig fel arfer.<br><br>Holodd Aelod am yr anawsterau o recriwtio seicolegydd ymgynghorol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y cafodd y rôl seicolegydd ei hysbysu ar ddau achlysur gwahanol heb unrhyw ymgeiswyr. Roedd prinder seicolegwyr ac er fod yr Awdurdod yn gystadleuol gyda bandio, roedd cyllid grant yn dymor byr.<br><br>Yng nghyswllt strategaeth gostwng y nifer o blant sy’n derbyn gofal, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn cael ei gwerthuso’n annibynnol gan Brifysgol Caerwrangon a holodd os oedd y Cyngor | |

wedi gweithio gyda Chyngor Casnewydd wrth ddatblygu'r tîm Cefnogi Newid. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod yr Awdurdod wedi edrych ar fodelau Casnewydd a hefyd Gwynedd ac wedi dewis dilyn model Gwynedd.

Holodd Aelod am daliadau i warcheidwaid arbennig a lefel y gofal a roddir i dorri'r cylch i bobl ifanc i fyw bywyd da a pheidio dod yn ôl i ofal. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod lefel y gefnogaeth i Warcheidwaid Arbennig yn cynnwys:-

- Yr awdurdod lleol yn datblygu cynllun yn amlinellu'r gefnogaeth a roddir i hyrwyddo lleoliad llwyddiannus.
- Lwfansau i warcheidwaid arbennig – byddai'r awdurdod yn asesu sefyllfa ariannol y gwarcheidwad arbennig a rhoi cefnogaeth ariannol os oes angen. Byddai hyn wedyn yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- Os yw lleoliad yn torri lawr, byddai'r tîm yn edrych ar sefyllfa'r plentyn a cheisio aelod arall o'r teulu i ofalu amdanynt fel amgen i ddod i ofal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gefnogaeth ariannol Gwasanaethau Plant, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y cynhaliwyd profion marchnad meddal gydag un cwmni cyfraith preifat a bod un awdurdod lleol wedi mynegi diddordeb mewn darparu gwasanaethau cyfreithiol i Gyngor Blaenau Gwent yn y dyfodol. Holodd Aelod os byddai manteision cost i gyflogi Cyfreithiwr Plant yn hytrach na defnyddio cyfreithwyr allanol costus. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant y cynhaliwyd y darn hwn o waith a bu anawsterau mewn recriwtio Cyfreithwyr Gofal Plant Awdurdod Lleol. Mae'n parhau i ymchwilio gweithio partner gydag awdurdodau lleol eraill ac yn disgwyl unrhyw ddiddordeb mewn cefnogi Blaenau Gwent gyda'r ddarpariaeth yma.

Holodd Aelod pam fod swydd gweithiwr cymorth cyfryngu yn un ran-amser. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant mai dim ond un swydd ran-amser y mae cyllid yn ei gefnogi, fodd bynnag mae hyn yn ychwanegol at y swydd lawn-amser sydd eisoes yn ei lle.

Yng nghyswllt ymyriad cynnar, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y sefydlwyd Gweithiwr Cymorth Addysg yn y tîm Cefnogi Newid i gynnig cymorth addysg ar gyfer plant a

| | | |
|---|---|---|
| | theuluoedd i blant sydd mewn risg o fynd i ofal. Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i lunio perthynas a chefnogi plant sy'n dangos anawsterau yn yr ysgol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y tanwariant mewn Gwasanaethau Plant ar gyfer chwarter 2, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod staffio yn un maes o danwariant, gyda 8 neu 9 o swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn wag ar hyn o bryd. Mae anawsterau wrth recriwtio'n allanol i swyddi Gweithwyr Cymdeithasol wedi arwain at i'r Adran annog gweithwyr cymorth mewnol i ddilyn hyfforddiant i ddod yn weithwyr cymdeithasol a llenwi swyddi gwag. Bu hefyd danwariant mewn costau asiantaethau maethu annibynnol gan fod yr Awdurdod yn lleoli llai o blant gyda darparwyr maethu allanol. Yng nghyswllt lleoliadau preswyl, derbyniodd Gwasanaethau Plant grant o £761,000 a chafodd hyn ei osod yn erbyn y gyllideb lleoliad preswyl. Cynhaliwyd sesiwn wybodaeth i Aelodau ym mis Chwefror ar waith y tîm MyST, sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal preswyl i ddod â nhw yn ôl i leoliadau gofal maeth i wella deilliannau ar gyfer plant a gostwng pwysau ar y gyllideb breswyl.<br><br>Holodd Aelod am nifer y plant mewn lleoliadau preswyl, os oedd nifer y gofalwyr maeth ym Mlaenau Gwent wedi cynyddu. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y bu cynnydd mewn ymholiadau am faethu yn y chwe mis diwethaf, fodd bynnag cafodd rhai plant eu lleoli gydag aelodau teulu estynedig ac mae hyn wedi arwain at nifer is o leoliadau preswyl.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am nifer y plant mewn gofal maeth hyd yma, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod 223 o blant mewn gofal maeth ar hyn o bryd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cymeradwyo'r wybodaeth a gynhwysir o fewn yr adroddiad. | |
| **No. 6** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019-20 (CHWARTERI 1 A 2)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol i dynnu sylw at bwyntiau allweddol o chwarteri 1 a 2 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymdeithasol 2019/2020.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>**Gwasanaethau Plant**<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant ar Wasanaethau Plant.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn dda nodi fod y cynllun Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl Plant yn ei le ac yn symud ymlaen.<br><br>**Gwasanaethau Oedolion**<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y cwblhawyd strategaeth gomisiynu Eiriolaeth a gynhyrchwyd ar y cyd ar gyfer cefnogi oedolion bregus ac y lansiwyd llinell gymorth eiriolaeth newydd. Anfonir taflenni gwybodaeth at Aelodau maes o law.<br><br>Soniodd Aelod fod rhai aelodau bregus yn gofalu am blant a bod angen hyrwyddo'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) i gyfleu'r neges i'r cyhoedd. Holodd am nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfer gofal seibiant ar gyfer oedolion gydag anableddau corfforol yn eu 70au sy'n gofalu am oedolion gydag anabledd corfforol Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Gofal Plant nad oedd unrhyw welyau seibiant ym Mlaenau Gwent ar gyfer oedolion gydag anableddau corfforol, yn yr achosion hyn caiff gwelyau eu comisiynu mewn Awdurdodau eraill ar sail unigol i ddiwallu anghenion arbenigol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad fel y cafodd ei baratoi. | |
| **No. 7** | **BLAENRAGLEN GWAITH - 13 IONAWR 2020**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y caiff y Model Ataliol o Wasanaeth i ateb y galw am ofal cymdeithasol yn y dyfodol ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y cyfarfod ar 13 Ionawr 2020. | |